**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru

16 Ionawr 2023

Annwyl John,

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch i chi ac i aelodau'r Pwyllgor am ystyried y tri Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a osodwyd gerbron y Senedd mewn perthynas â Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) Llywodraeth y DU.

Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd ar 13 Rhagfyr ac yn falch bod y mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor yn cytuno â fy argymhelliad bod rhoi cydsyniad deddfwriaethol yn briodol yn achos y Bil hwn gan Lywodraeth y DU.

Fel y nodir yn ein hegwyddorion ar Filiau'r DU, ceir amgylchiadau pan fydd yn synhwyrol ac yn fanteisiol i ddarpariaeth ddatganoledig gael ei wneud ym Miliau'r DU, yn amodol ar gydsyniad y Senedd. Fodd bynnag, rwy'n deall rhwystredigaeth y Pwyllgor ynghylch yr amser a roddir gan y broses cydsyniad deddfwriaethol pan fydd amserlenni arferol wedi eu cwtogi.

Rydym yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu a chael gweld drafftiau cynnar y darpariaethau i Lywodraeth y DU, er mwyn osgoi'r mathau hyn o broblemau, gyda'r bwriad o sicrhau y rhoddir yr amser hiraf posibl i Lywodraeth Cymru a'r Senedd i graffu ar y ddarpariaeth. Rwy'n ymddiheuro lle na fu hynny'n bosibl yn achos y Bil cyfredol, a phan fo hyn wedi achosi anghyfleustra i'r Pwyllgor. Rwyf bob amser yn gwneud fy ngorau i osod memoranda o fewn yr amserlen arferol fel y nodir yn y Rheolau Sefydlog, fel y digwyddodd yn achos Memorandwm Rhif 4 a osodwyd mewn perthynas â'r Bil hwn ar 6 Rhagfyr 2022.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.